# ECAD6006C
# Mynegi Barn ymhellach

Dydd Mawrth 13.11.2018

Catrin Evans-Thomas a Kara Lewis

# NOD Y WERS

**Defnyddio geirfa mynegi barn i drafod pwnc.**

***<u>Amcanion</u>***

- Adolygu geirfa mynegi barn
- Ymarferion gwallau cyffredin
- Darllen cerdd a'i thrafod gan ddefnyddio ymadroddion mynegi barn
- Tasg dysgu cyfeiriol – trafod llygredd

# Adolygu gwallau cyffredin

# MAE / MAENT

Dyma sut i redeg y ferf ‘bod’ yn gywir yn yr amser presennol:

Rydw i
Rwyt ti
Mae e
Mae hi
Rydyn ni
Rydych chi
**Maen nhw**

Maent =
Maen nhw

# ei / eu

- ei = unigol
- eu = lluosog

ei (gwrywaidd) + **treiglad meddal**

ei (benywaidd) + **treiglad llaes**

eu + DIM treiglad

# Berfau amhersonol

Trafod rhywbeth sydd <u>wedi digwydd</u>

= defnyddio ___wyd (gorffennol),

NID ___ir (presennol)

**NEWIDIWCH Y RHAIN :**

1. Gofynnir i Sian Lloyd.
2. Trefnir taith i'r traeth.
3. Mwynheuir yn fawr iawn.

# Berfau amhersonol

1. Gofynnwyd i Sian Lloyd.
2. Trefnwyd taith i'r traeth.
3. Mwynheuwyd yn fawr iawn.

# Berfau'r gorffennol

**AMRYWIWCH eich defnydd o ferfau– arddangoswch eich sgiliau ieithyddol!**

Trowch y rhain yn ferfau cryno :

1. Gwnaeth y plant fwynhau…
2. Gwnaeth y dosbarth benderfynu…
3. Gwnaethon ni ddarganfod…
4. Gwnaethon ni weld…
5. Gwnaeth y plant weld…

**Ysgrifennwch y ffurf gywir yn y bylchau, e.e.**

**_______________ parti i ddathlu diwedd y tymor.** ***(trefnu)***

**= Trefnir parti i ddathlu diwedd y tymor.**

1………………….. llyfrau Cymraeg a Saesneg bob dydd. (darllen)
2………………….. adroddiad ar bob plentyn. (ysgrifennu)
3………………….. wyau, blawd a llaeth i wneud crempogau. (defnyddio)
4………………….. gorffen y gwaith cyn diwedd y tymor. (gobeithio)
5………………….. llythyr at y rhieni bob wythnos. (anfon)
6………………….. y gwaith o'r Gymraeg i'r Saesneg. (cyfieithu)
7………………….. cyngerdd yn y neuadd nos Sadwrn. (cynnal)
8………………….. pob math o straeon ar y newyddion y dyddiau yma. (clywed)
9………………….. gweddi cyn cinio bob dydd. (dweud)
10………………….. pob math o bethau yn yr archfarchnad. (gwerthu)
11………………….. llawer o bosteri lliwgar ar y waliau. (gweld)
12………………….. gweithgareddau diddorol bob dydd. (gwneud)



**Her – trosi yn ôl i'r goddefol**
**e.e. Mae llyfrau Cymraeg a Saesneg yn cael eu darllen bob dydd.**

# Berfau'r gorffennol

**AMRYWIWCH eich defnydd o ferfau– arddangoswch eich sgiliau ieithyddol!**

1. **Mwynheuodd** y plant …
2. **Penderfynodd** y dosbarth …
3. **Darganfyddon** ni …
4. **Gwelon** ni weld…
5. **Gwelodd** y plant …

# MYNEGI BARN



Mae Brexit yn syniad gwych
Does dim digon o bynciau yn...
Mae gormod o wyliau gan ath...
Dylai plant adael ysgol yn 14 oed
Mae angen gwyliau cenedlaet...
angen ffôn symudol ar b...
Mae pêl-droed yn well na rygbi
e gan bawb obsesiwn â'u ffôn!
CLICK TO SPIN

# Wylo mae'r môr



Wyddech chi
fod y lleuad yn galw
ar y trai a'r llanw
o hyd, o hyd?

Wyddech chi
fod adar yn gorwedd
ar draeth y llygredd
o hyd, o hyd?

Wyddech chi
fod dannedd y tonnau
yn araf gnoi'r creigiau
o hyd, o hyd?

Wyddech chi
fod dannedd y tonnau
yn araf gnoi'r creigiau
o hyd, o hyd?

Wyddech chi
fod cysgod yn dyfod
hyd felyn y tywod,
o hyd, o hyd?

Wyddech chi
fod miloedd o ddagrau
yn gymysg â'r tonnau
o hyd, o hyd?

Len Jones

# Trafod y gerdd

Sylwch ar batrwm y gerdd. Beth sydd ar ddiwedd pob pennill?

Pam mae'r môr yn wylo?

Beth sydd yn eich gwneud chi yn drist / eisiau crio?

Mae'r môr yn cael ei bersonoli – beth yw'r dystiolaeth yn y gerdd?

Beth yw eich barn chi am y gerdd?

Sut allwn ni atal y môr rhag wylo?

Pam mae'r bardd yn ailadrodd 'o hyd, o hyd'?

# Bwrlwm Barddoniaeth









MAP MEDDWL







# GEIRIAU MYNEGI BARN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn fy marn i… | Credaf fod… | Mae'n amlwg fod | Rwy'n anghytuno |
| Mantais yw… | Anfantais yw… | Mae… yn beth da oherwydd… | mae… yn dadlau bod … |
| ar ôl dweud hyn… | ar un llaw… | ar y llaw arall… | felly i gloi… |









# TASG – MYNEGI BARN

Mewn grŵp, darllenwch y pecyn ‘Bygythiad Byd-eang’

Gwnewch nodiadau a lluniwch ddarn yn mynegi eich barn ar lygredd.

**tua un ochr A4**

CYNNWYS

- **Beth yw’r prif broblemau? Pwy sydd ar fai?**
- **Beth allwn ei wneud i helpu? Beth yw’r atebion?**
- **Beth fydd y canlyniad os na wnawn ni ddim byd?**
- **Cofiwch ddefnyddio tystiolaeth i gefnogi eich safbwynt**

Iaith

- **Cofiwch ddefnyddio geirfa ac idiomau mynegi barn wrth drafod eich pwyntiau**